

Newyddlen

Gwanwyn 2020

Cenhadaeth SSCE Cymru

Gwybodaeth a thystiolaeth

Cynnal a chomisiynu ymchwil i brofiadau plant milwyr mewn addysg – i helpu i ganfod lle maen nhw'n wynebu heriau ychwanegol. Defnyddio canfyddiadau'r ymchwil i lunio canolbwyntiau a gwaith SSCE Cymru.

Gweithgareddau ac adnoddau

Cydweithio ag ysgolion, awdurdodau lleol, elusennau a sefydliadau cymorth i gynhyrchu adnoddau a fydd o gymorth i weithwyr proffesiynol i gefnogi plant milwyr drwy gydol eu haddysg.

Effaith polisiau a systemau

Cydweithio â Llywodraeth Cymru i sicrhau dealltwriaeth o genhadaeth SSCE Cymru. Darparu tystiolaeth i gydnabod effaith polisi ar blant milwyr.



Casglu data SSCE Cymru

Ar hyn o bryd mae SSCE Cymru yn ymwybodol o tua 2,100 o blant milwyr yn byw yng Nghymru ac mae'n gweithio gydag awdurdodau lleol i sefydlu'r ffordd orau o gasglu data yn 2020.

Pam fod deall nifer plant milwyr a'u lleoliad yn bwysig:

- Fe all SSCE Cymru weithio gyda'r ysgolion a chynnig cymorth pan fo angen
- Fe ellir sicrhau fod Ysgolion yn cael yr adnoddau a'r hyfforddiant cyfredol a all fod o gymorth iddynt i gefnogi plant milwyr
- Fe all arian sydd ar gael i gefnogi plant milwyr mewn addysg gael ei ddefnyddio mor effeithiol â phosibl.

Swyddogion Ymgysylltu ag Ysgolion Rhanbarthol

Mewn cydweithrediad â'r 160 Brigâd (Cymreig), dyfarnwyd £338,00 i SSCE Cymru yn ddiweddar o Gronfa Dileu'r Rhwystrau i Fwyd Teuluol Cyfamod y Lluoedd Arfog, er mwyn cyflwyno pedwar Swyddog Ymgysylltu ag Ysgolion Rhanbarthol – Plant Milwyr (*RSLO*) yng Nghymru am ddwy flynedd.

Bydd pob un o'r Swyddogion Ymgysylltu ag Ysgolion Rhanbarthol yn ymdrin â 5/6 o'r awdurdodau lleol ac fe fyddant yn cael eu cynnal gan bedwar awdurdod lleol arweiniol (Ynys Môn, Casnewydd, Sir Benfro a Bro Morgannwg). Byddant yn cael eu recriwtio a'u penodi erbyn Awst 2020 a byddant i gyd yn dilyn yr un cynllun gwaith a gweithgareddau; wedi eu llunio a'u monitro gan SSCE Cymru, gyda ffocws clir ar gynaliadwyedd a mesur yr effaith.

Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â SSCE@wlga.gov.uk

Adnoddau newydd SSCE Cymru

Mae SSCE Cymru wedi lansio cyfres o adnoddau newydd yn ddiweddar:

[Gwefan newydd](#) – siop un alwad gyda gwybodaeth ac adnoddau ar gyfer ysgolion, lleoliadau addysgol, awdurdodau lleol, plant milwyr a theuluoedd milwyr.

[Pecyn Cymorth Ysgol newydd SSCE Cymru](#) – yn cynnwys gwybodaeth a chynghor a hefyd yn cyfeirio at gymorth perthnasol, wedi ei rannu yn wyth adran, gan gynnwys y Lluoedd Arfog yng Nghymru, profiadau plant milwyr, iechyd meddwl a lles ac ymchwil.

[Pecynnau SSCE Cymru](#) – wedi eu llunio ar y cyd â Phecyn Gwaith Ysgolion SSCE Cymru; fe all yr adnoddau hyn gael eu lawrlwytho, teilwra a'u defnyddio gan yr ysgol, rhieni/gofalwyr neu blant milwyr.

[Cyfeirlyfr cymorth](#) – yn cynnwys manylion bron i 100 o sefydliadau sy'n berthnasol i gefnogi plant milwyr; gyda swyddogaethau chwilio a hidlo sy'n helpu defnyddwyr i ddefnyddio'r ystod o wybodaeth.

[Ffilmiau Cymraeg](#) – dathlu plant milwyr yn dysgu Cymraeg ac yn rhannu eu sgiliau ieithyddol newydd.

[Astudiaethau Achos](#) – rhannu enghreifftiau o arfer da o sut mae ysgolion ac awdurdodau lleol yn canfod angen eu plant milwyr ac yn eu cefnogi.

Gwrando ar blant milwyr (2020) – casgliadau

Mae SSCE Cymru wedi cynnal grwpiau trafod gyda 115 o blant milwyr mewn 14 ysgol ar draws Cymru. Gan ddefnyddio dulliau ansoddol a meintiol i ymdrin â'r pynciau trafod, bydd y dystiolaeth a geir yn cael ei defnyddio i lunio cynlluniau a gweithgareddau SSCE Cymru yn y dyfodol.

Mae adroddiad llawn o'r casgliadau nawr ar gael [yma](#).

Diffiniad newydd SSCE Cymru o blentyn milwr

I ddibenion prosiect SSCE Cymru, y diffiniad o blentyn milwr nawr yw:

“Unigolyn y mae ei riant, neu brif ofalwr, yn gwasanaethu yn y Lluoedd Arfog rheolaidd, neu fel milwr wrth gefn, neu wedi gwneud hynny ar unrhyw bwynt yn ystod 25 mlynedd cyntaf bywyd yr unigolyn hwnnw.”

Y rhesymau dros ddiweddarau diffiniad SSCE Cymru:

- Fel ei fod yn ymgorffori'r holl blant milwyr
- Fel ei fod yn cyd-fynd gyda sefydliadau ar draws y DU
- Fel bod gan ysgolion well dealltwriaeth o bwy sydd wedi ei nodi fel plentyn milwr.

Cafodd y diffiniad newydd ei ddewis yn ystod un o'r gweithgareddau yn Niwrnod Budd-ddeiliaid Rhithwir SSCE Cymru yn ddiweddar, gyda 67% o'r cyfranogwyr yn pleidleisio o blaid y diffiniad hwn.

Partneriaeth Awdurdod Lleol a'r Weinyddiaeth Amddiffyn (4 Mawrth)

Lleoliad: Parc Dewi Sant, Caerfyrddin

Roedd ail gyfarfod grŵp Partneriaeth Awdurdod Lleol a'r Weinyddiaeth Amddiffyn yn cynnwys cynrychiolwyr o Lywodraeth Cymru, y Weinyddiaeth Amddiffyn, Consortia Addysg a 10 awdurdod lleol. Roedd y cyfarfod yn cynnwys nifer o drafodaethau cadarnhaol ar sut y gall awdurdodau lleol weithio gyda SSCE Cymru a'r Gyfarwyddiaeth Plant a Phobl Ifanc (DCYP) i gefnogi eu plant milwyr. Diolch i bawb a fynychodd!

Roedd yr eitemau ar y rhaglen yn cynnwys:

- Y wybodaeth ddiweddaraf am SSCE Cymru
- Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY)
- Rhannu arferion da – Cyngor Dinas Casnewydd
- Rhannu arferion da – Cyngor Bro Morgannwg
- TGP Cymru
- Cynnig casglu data.

Mae copïau o'r cyflwyniadau a'r nodiadau wedi cael eu dosbarthu i'r rhai a fynychodd neu a anfonodd ymddiheuriadau.

Partneriaeth Awdurdod Lleol a'r Weinyddiaeth Amddiffyn nesaf: dyddiad (i'w gadarnhau) Gorffennaf 2020, lleoliad (i'w gadarnhau).

Diwrnod Budd-ddeiliaid SSCE Cymru (17 Mawrth)

Lleoliad: Rhithwir

Roedd disgwyl i SSCE gynnal Diwrnod Budd-ddeiliaid arall yng nghanolfan y Llu Awyr y Fali. Yng ngoleuni'r ansicrwydd ynglŷn â'n gallu i gynnal y digwyddiad wyneb yn wyneb, fel a gynlluniwyd, ar 10 Mawrth fe dddosbarthwyd cynlluniau gennym i gynnal elfennau o'r digwyddiad yn rhithwir. Fe gymrodd nifer o gynrychiolwyr ran yn y Diwrnod Budd-Ddeiliaid a dangosodd adborth fod 100% o'r cynrychiolwyr wedi teimlo fod y digwyddiad wedi bod o fudd ac wedi bodloni eu disgwyliadau.

Diolch i bawb a gymrodd ran yn y gweithgareddau a'r gweithdai sy'n helpu i siapio'r gwaith sydd i ddod gan SSCE Cymru.

Roedd yr eitemau ar y rhaglen yn cynnwys:

- Adnoddau newydd SSCE Cymru
- Gwranddo ar ganfyddiadau ein plant milwyr
- Diffiniad newydd SSCE Cymru o blentyn milwr
- Blaenoriaethau cyllid i gefnogi plant milwyr.

Mae copi o'r rhaglen a chrynodeb o nodiadau/sylwadau'r drafodaeth yn ystod rhai o'r gweithgareddau allweddol ar gael ar [wefan SSCE Cymru](#).

Diwrnod Budd-ddeiliaid nesaf SSCE Cymru: dyddiad (i'w gadarnhau) Medi 2020, lleoliad (i'w gadarnhau).

Am ragor o wybodaeth ar brosiect SSCE Cymru ewch i www.SSCECymru.co.uk a dilyn [@SSCECymru](https://twitter.com/SSCECymru) ar Twitter

Mae croeso i chi ddosbarthu newyddlen SSCE Cymru i'ch rhwydwaith a'ch cysylltiadau eich hun. Gall unrhyw un sydd am ymuno â Rhwydwaith SSCE Cymru gofrestru yma.

Y diweddaraaf yn ymwneud â chyllid

Cyllid Llywodraeth Cymru



Am y drydedd flwyddyn yn olynol mae Llywodraeth Cymru wedi cadarnhau y bydd £250,000 ar gael unwaith eto ar gyfer blwyddyn academaidd 2020/21, i gefnogi ysgolion ac awdurdodau lleol gyda phlant milwyr. Mae SSCE Cymru yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru ar siapio sut y bydd y cronfeydd yn cael eu defnyddio.

Cyllid y Weinyddiaeth Amddiffyn



Ar hyn o bryd nid oes cadarnhad gan y Weinyddiaeth Amddiffyn prun ai a fyddant yn sicrhau fod cronfeydd ar gael i gefnogi plant milwyr mewn addysg yn 2020/21.

Grantiau bach (o dan £20,000)



Mae Cyfamod y Lluoedd Arfog yn addewid gan y genedl bod y rhai sy'n gwasanaethu, neu wedi gwasanaethu, a'u teuluoedd, yn cael eu trin yn deg.

O dan raglen Grantiau Lleol Cyfamod y Lluoedd Arfog, mae grantiau hyd at £20,000 ar gael i brosiectau lleol sy'n cefnogi integreiddio cymunedol neu ddarparu gwasanaethau'n lleol.

Yn y rownd ddiweddaraaf o gyllid, roedd y lleoliadau addysgol canlynol yn llwyddiannus yn eu ceisiadau am gyllid:

- Ysgol Uwchradd Llanilltud Fawr – prosiect MPCT
- Ysgol Annibynnol a Meithrinfa Treffos – gofod dysgu awyr agored
- Prifysgol De Cymru – Sefydlu Canolbwyt Cynghrair Datblygu Plant Milwyr (SCip) a chynnal Diwrnodau Lluoedd Creadigol.

Am ragor o fanylion, ewch i www.covenantfund.org.uk/local-grants-and-digital-development-programme/

Mae canllawiau a chyngor ar ymgeisio am grantiau ar gael yma www.SSCECymru.co.uk

Y wybodaeth ddiweddaraf am Rwydwaith SSCE Cymru

Addysg



Pecyn Gwaith Bywydau Llewyrchus

Pecyn hunan asesu ar gyfer ysgolion i edrych ar eu cefnogaeth i blant milwyr.

Mae Cynghrair SCip wedi sicrhau cyllid gan Ymddiriedolaeth Cyfamod y Lluoedd Arfog i gomisiynu ymchwil pellach i brofi'r

pecyn gwaith Bywydau Llewyrchus, sydd ar hyn o bryd yn canolbwyntio ar Loegr, mewn cyd-destunau cenedlaethol eraill. Mae disgwyl i'r prosiect gael ei gwblhau yn Ionawr 2021.

Yn dilyn lansio Pecyn Gwaith Bywydau Llewyrchus bydd cyfres o gynadleddau yn cael eu cynnal o amgylch y DU, wedi eu hariannu gan Gronfa Cefnogaeth Addysg y Weinyddiaeth Amddiffyn. Bydd un o'r cynadleddau yn cael ei chynnal gan Brifysgol De Cymru ac yn cael ei chefnogi gan SSCE Cymru, yn nechrau 2021. Am ragor o fanylion, cysylltwch â info@scipalliance.org



Diwrnodau Lluoedd Creadigol

Mewn cydweithrediad â SSCE Cymru, mae Prifysgol De Cymru wedi sicrhau cyllid i gynnal digwyddiadau allgymorth wedi eu targedu, Diwrnod Lluoedd Creadigol, gyda phlant milwyr yn Ne Cymru. Mae'r digwyddiadau'n defnyddio strwythur rhaglen ac adnoddau'r Gynghrair SCiP. Ni fydd yna unrhyw gost i ysgolion a bydd cludiant yn cael ei ddarparu. Nid yw'r dyddiadau wedi eu cadarnhau eto.

Am ragor o wybodaeth am y Diwrnodau Lluoedd Creadigol, cliciwch yma.

Am ragor o wybodaeth neu i gymryd rhan cysylltwch â SSCE@wlga.gov.uk

Sefydliadau'r Lluoedd Arfog



Ministry
of Defence

Gyfarwyddiaeth Plant a Phobl Ifanc (DCYP)

Mae'r Weinyddiaeth Amddiffyn wedi cadarnhau y bydd aseiniadau milwrol yn cael eu rhewi dros dro, heblaw am y rhai sy'n hanfodol i allu gweithredol a/neu ymateb COVID-19 amddiffyn.

Fel arfer, mae aseiniad yn golygu personél sy'n symud lleoliad fel rhan o'u huned, neu fel unigolion; fel arfer, bydd hyn yn cael ei wneud i awdurdod lleol arall neu gall fod tu allan i'r DU yn gyfan gwbl.

Bydd y rhewi aseiniad hwn yn dod i rym ar unwaith ac yn berthnasol tan 1 Gorffennaf i ddechrau, gydag adolygiad erbyn 30 Ebrill fan bellaf, i farnu a oes angen estyniad. Os nad oes angen estyniad, yna bydd dychwelyd graddedig i aseiniadau arferol yn cychwyn o 1 Gorffennaf.

Bydd hyn yn golygu na fydd rhai o deuluoedd y lluoedd arfog, a oedd yn cael Gorchmynion aseinio yn ystod y cyfnod hwn, yn symud fel y bwriadwyd yn wreiddiol; effeithio ar gymorth a chynllunio ysgolion ac awdurdodau lleol.



Ar y ffordd

Am y tro cyntaf eleni fe fydd Little Troopers yn mynd â thaith sy'n un filwrol yn benodol i ysgolion ar draws y wlad. Fe all ysgolion sydd â llawer o filwyr bach gymryd rhan drwy gysylltu â info@littletroopers.net



Rhagoriaeth mewn addysg

Drwy gydol mis Mawrth mae Ffederasiwn Teuluoedd y Fyddin (AFF) wedi bod yn canolbwyntio ar rannu enghreifftiau o Ragoriaeth mewn Addysg ar y cyfryngau cymdeithasol, gan dynnu sylw at ysgolion sy'n mynd gam ymhellach dros blant milwyr, prun ai drwy glybiau ar ôl ysgol neu gymorthyddion dysgu ymroddedig. Mae'r AFF wedi canfod pytiau defnyddiol o wybodaeth ar faterion pwysig sy'n effeithio ar blant milwyr gan amlygu cymorth sydd ar gael.

[Facebook](#)

[Twitter](#)

[Instagram](#)



Mae Ffederasiwn Teuluoedd yr Awyrlu Brenhinol (RAF) yn bodoli i gynrychioli holl staff yr Awyrlu Brenhinol, prun ai a ydynt wedi priodi, mewn partneriaeth neu'n sengl a'u teuluoedd. Gweinidogion, uwch staff Amddiffyn a'r Weinyddiaeth Amddiffyn a rhwydweithiau addysg a chyrrff llywodraeth leol o amgylch y DU yw'r budd-ddeiliaid allweddol. Hefyd fe allant gynnig cymorth a chynghor i'r rhai sy'n cefnogi aelodau o'r

Lluoedd Arfog, eu teuluoedd a'u plant. Mae gwefan Ffederasiwn Teuluoedd yr Awyrlu Brenhinol yn cynnig pwynt gwybodaeth ar ystod eang o bynciau. Gallwch danysgrifio am ddim i gylchgrawn 'Envoy' Ffederasiwn Teuluoedd yr Awyrlu Brenhinol neu'r e-fwletin wythnosol sy'n crynhoi newyddion Ffederasiwn Teuluoedd yr Awyrlu Brenhinol a newyddion amddiffyn yn ehangach. www.raf-ff.org.uk
Cysylltwch â Ffederasiwn Teuluoedd yr Awyrlu Brenhinol drwy enquiries@raf-ff.org.uk neu defnyddiwch y botwm 'rhowch wybod am broblem' ar y wefan.



Mae Cobseo, fel Cydffederasiwn Elusennau'r Lluoedd Arfog, yn darparu pwynt cyswllt unigol ar gyfer rhyngweithio gyda'r Llywodraeth, gan gynnwys llywodraeth leol a'r Gweinyddiaethau Datganoledig; gyda'r Teulu Brenhinol; gyda'r Sector Preifat; ac wrth gwrs gydag aelodau eraill o Gymuned y Lluoedd Arfog. Mae hyn yn

galluogi Aelodau Cobseo i ryngweithio gyda'r holl grwpiau â diddordeb ac yn arbennig i gydweithredu a chydweithio gydag eraill er mwyn darparu'r lefel orau bosib o gymorth i fuddiolwyr.

www.cobseo.org.uk

Y Gwasanaeth Cymorth Wrth Adael y Lluoedd Arfog

Caiff y Gwasanaethau Cymorth Wrth Adael y Lluoedd Arfog eu gweinyddu a'u cynnal drwy Veterans UK. Maent yn darparu gwybodaeth a chefnogaeth ar gyfer y rhai sy'n gadael y lluoedd arfog a'u teuluoedd wrth iddynt adael ac addasu i fywyd sifil.

Mae gadael y Lluoedd Arfog yn golygu mwy na'r unigolyn yn dod o hyd i gyflogaeth; mae effaith gadael y Lluoedd Arfog yn effeithio ar y teulu cyfan. Bydd y Gwasanaeth Cymorth Wrth Adael y Lluoedd Arfog yn cefnogi'r sawl sy'n gadael neu aelod o'r teulu ar amrediad o faterion gan gynnwys tai, lles, iechyd, plant ac addysg.

Os allwch chi, neu rywun yr ydych yn ei adnabod, elwa o'r gefnogaeth sydd ar gael gan y Gwasanaethau Cymorth Wrth Adael y Lluoedd Arfog:

- Siaradwch gyda'ch Cadwyn Awdurdod
- E-bostiwch DBSVets-DTS-Central@mod.gov.uk <<mailto:DBSVets-DTS-Central@mod.gov.uk>>
- Ewch i <https://www.gov.uk/government/publications/help-and-support-for-service-leavers-and-their-families> a chwblhau:

DTRP Ffurflen 1 (Awdurdod Milwrol y Tri Gwasanaeth neu Atgyfeiriad Contractwr Milwrol)
neu DTRP Ffurflen 2 (Hunan atgyfeiriad/atgyfeiriad trydydd parti).

Awdurdodau Lleol



Swyddog Cyswllt Rhanbarthol Cyfamod y Lluoedd Arfog (AFLO)

Mae Hayley Edwards wedi dechrau ei swydd yn ddiweddar fel Swyddog Cyswllt Cyfamod y Lluoedd Arfog ar gyfer Sir Gaerfyrddin, Ceredigion a Sir Benfro.

Rôl Swyddogion Cyswllt Cyfamod y Lluoedd Arfog yng Nghymru yw i gefnogi gweithredu Cyfamod y Lluoedd Arfog.

Fe fydd Hayley yn gweithio'n agos gyda SSCE Cymru i gefnogi ysgolion ac awdurdodau lleol i ddeall anghenion plant milwyr a chanfod ffyrdd o ddarparu cefnogaeth.


Cysylltwch â Hayley ar: 01437 775445, 07717 450846, neu HREdwards@carmarthenshire.gov.uk

Swyddog Cymorth Cyfamod Rhanbarthol y Lluoedd Arfog (AFSO)

Yn ddiweddar, mae Ian Pritchard wedi dechrau yn ei rôl fel yr AFAS newydd i awdurdodau lleol yng Ngogledd Cymru.

Rôl Ian fydd gweithio gyda Stephen Townley (AFLO Gogledd Cymru) i gefnogi'r gwaith o weithredu cyfamod y Lluoedd Arfog.

Cysylltwch â Hayley ar: ian.pritchard@wrexham.gov.uk



Mae Bwrdeistref Sirol Castell-nedd a Phort Talbot yn ddiweddar wedi cyflogi Swyddog Cyswllt Addysg y Lluoedd Arfog newydd. Mae Heather Thomas yn gweithio o fewn yr awdurdod ac ymgymrodd â'r ychwanegiad cyffrous hwn i'w rôl bresennol ym mis Ionawr. Mae wedi bod yn wraig milwr a phan nad yw yn y gwaith mae'n Swyddog Cefnogi Cyn-filwyr ac felly roedd Heather yn teimlo y gallai ddod â'i phrofiad a'i gwybodaeth i'r rôl o gefnogi ysgolion, plant milwyr a'u teuluoedd.

Mae gwaith eisoes wedi dechrau ar gysylltu gydag ysgolion ac asiantaethau cymorth yn yr ardal. Y gobaith yw y bydd yna ddigwyddiadau cymdeithasol a llawer mwy i ddilyn yn ystod y misoedd nesaf.

Cysylltwch â Heather ar: 07971660077, h.thomas2@npt.gov.uk

Encil gweithgaredd plant milwyr

Mae Swyddog Cefnogi Addysg Lluoedd Ei Mawrhydi ar gyfer Casnewydd a Sir Fynwy, Emma Ashmead, yn gweithio gyda [Forces Fitness](#) a [Woody's Lodge](#) i drefnu penwythnos o weithgareddau yn [Amelia Trust Farm](#). Bydd y penwythnos yn canolbwyntio ar ddod â phlant milwyr ynghyd i greu cyfleoedd cymdeithasol drwy weithgareddau wedi eu strwythuro a'u teilwra sydd wedi eu cynllunio i ysgogi a chreu brwdfrydedd ymhlith pobl ifanc. Bydd yn cynnig dull personol sy'n cefnogi datblygiad unigolion, gwella hyder, hunan-barch a gwynwch, gan alluogi'r bobl ifanc i oresgyn heriau a'u galluogi i feddwl y tu hwnt i'r ymddygiadau ymddangosiadol. Bydd y rhaglen yn cael ei gydlyn gan Force Fitness, gyda nifer o sefydliadau yn cynnal gweithgareddau dros y penwythnos. Mae yna 16 o leoedd ar gael i blant milwyr mewn awdurdodau lleol yng Ngwent ac mae'n rhad ac am ddim.

Am ragor o wybodaeth neu i gymryd rhan, cysylltwch â Emma.Ashmead@newport.gov.uk

Aelodau rhwydweithiau eraill



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ymarfer cwmpasu cyn-filwyr / strategaeth cyn-filwyr

Yn dilyn yr ymarfer cwmpasu cyn-filwyr, a glywodd gan dros 1,000 o ymatebwyr ar draws Cymru, mae Llywodraeth Cymru wedi sefydlu bwrdd Rhaglen newydd i fynd i'r afael â'r argymhellion gan weithio gyda grŵp Arbenigol y Lluoedd Arfog a fforymau eraill. Mewn addysg bydd y gwaith yn anelu i 'godi proffil o anghenion plant milwyr yng Nghymru, gan ddarparu cymorth lle bo angen a gwella data'.

Bydd partneriaid fel SSCE Cymru, DCYP a chynghrair SCIP yn ffurfio rhan o'r gwaith hwnnw.

Believe in
children



Barnardo's

Ymchwil: Aseiad o Anghenion Cyn-filwyr yn y Ddalfa, eu Teuluoedd a'u Plant

Roedd y prosiect ymchwil hwn yn cael ei arwain gan [NICCO Barnardo's](#) a'i ariannu gan [Forces in Mind Trust](#). Mae'r adroddiad yn darparu cipolwg ar anghenion a phrofiadau teuluoedd cyn-filwyr yn y ddalfa. Ymhlith y canfyddiadau eraill, datgelodd y dadansoddiad lefelau uchel o achosion o deuluoedd yn chwalu ac, fel y trawsnewidiad o fywyd milwrol i fywyd sifil, roedd yr her fwyaf ar gyfer cyn-filwyr a'u teuluoedd yn digwydd wrth i'r cyn-filwr adael y ddalfa a dychwelyd i'r gymuned.

I weld yr adroddiad llawn cliciwch [yma](#).

Adnoddau

YOUNG MINDS

Adnoddau a deunyddiau ar gyfer athrawon a staff ysgol i adeiladu eu sgiliau a sicrhau fod ieuchyd meddwl a lles yn greiddiol, gan roi gwerth i ran o'u swydd.

[Adnoddau Ysgol](#)

Fe all ysgolion gofrestru i dderbyn adnoddau am ddim, a fydd yn mynd yn syth i'w hunigolyn arweiniol [yma](#).

ROYAL
AIR FORCE
Families
Federation

Nodyn briffio ar y 'Broses Ddyrannu Lleoedd mewn Ysgol'.

<https://www.raf-ff.org.uk/publications/briefing-notes/>

Mae 'Departures' yn ganllaw i deuluoedd ar y trawsnewidiad i fywyd sifil sy'n anelu i helpu teuluoedd i gynllunio ar gyfer y diwrnod anochel y bydd yr unigolyn yn gadael y Llu Awyr ac mae'n cynnig cyngor ac yn cyfeirio ar amrediad o bynciau, gan gynnwys addysg.

<https://www.raf-ff.org.uk/transition/departures-guide/>

Naval Families
FEDERATION

Homeport

Mae'r rhifyn diweddaraf ar gael yma:

<https://nff.org.uk/homeport-magazine/>



Cylchgrawn Army & You

Mae'r rhifyn diweddaraf ar gael yma:

https://issuu.com/armyandyoumag/docs/army_you_spring_2020?fr=sMTc5NzE5MDU3OA

Yn cynnwys cyfeiriad at y cymorth sydd ar gael gan SSCE Cymru ar dudalen 47.



Envoy

Mae'r rhifyn diweddaraf ar gael yma:

<https://www.raf-ff.org.uk/publications/envoy-magazine/>

Covid:19 adnoddau cymorth

Ewch i [@SSCECymru](#) ar Twitter, lle byddwn yn rhannu llawer o wybodaeth a chyngor perthnasol ar sut i gefnogi plant milwyr yn ystod COVID-19.



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

[5 peth mae angen i chi eu gwybod cyn anfon eich plant i'r ysgol neu ofal plant \(coronafeirws\)](#)

[Canllawiau i ysgolion, darparwyr gofal plant, colegau ac awdurdodau lleol yn Lloegr ar gynnal darpariaeth addysgol](#)



[Sut i Gefnogi Pobl Ifanc y Lluoedd Arfog yn ystod y Coronafeirws](#)



[Datganiad ar y penderfyniad i ganslo arholiadau haf 2020](#)

[Cwestiynau cyffredin](#)



[Cyngor COVID-19 i rieni gyda phlant mewn Ysgol Breswyl yn y DU](#)



[Ymateb i'r coronafeirws: adnoddau ar gyfer iechyd meddwl a lles](#)

['Beth sy'n mynd ymlaen?' Llyfr a ysgrifennwyd gan Clare Shaw i helpu esbonio Covid-19 i blant iau](#)

[Add gorff gyda Joe, bob bore am 9am](#)

Digwyddiadau i ddod

Un nodwedd ar wefan newydd SSCE Cymru yw calendr o ddigwyddiadau. Cliciwch [yma](#) i weld manylion:

- Digwyddiadau sydd i ddod gan SSCE Cymru
- Digwyddiadau rhwydwaith aelodau sydd i ddod gan SSCE Cymru
- Fforymau Lluoedd Arfog sydd i ddod
- Fforymau Lluoedd Arfog Bwrdd Iechyd y Brifysgol sydd i ddod
- Manylion digwyddiadau blaenorol SSCE Cymru (gan gynnwys copïau o raglenni a chyflwyniadau).

I rannu manylion digwyddiad sy'n berthnasol i Gymuned y Lluoedd Arfog, cysylltwch â SSCE@wlga.gov.uk

Astudiaethau achos

Yn ddiweddar mae SSCE Cymru wedi ychwanegu cyfres o astudiaethau achos newydd i'r

[wefan](#), gan rannu enghreifftiau o arferion da mewn ysgolion ar draws Cymru.

I ddweud wrthym am y gwaith rydych yn ei wneud a sut mae hynny wedi bod o fudd i blant milwyr neu gymuned yr ysgol, cysylltwch â SSCE@wlga.gov.uk.



Bydd Newyddlen nesaf SSCE Cymru yn cael ei ddosbarthu yn Haf 2020.

Os hoffech gyfrannu cynnwys i'r rhifyn nesaf, anfonwch y deunydd i SSCE@wlga.gov.uk erbyn 10 Mehefin.



Dilynwch ni ar Twitter [@SSCECymru](https://twitter.com/SSCECymru)